# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Hydref 2018

Newyddlen y Hydref // Autmn Newsletter

Mae Gwynllyw eleni'n dathlu'r deg ar hugain. Braf medru cyhoeddi bod yr ysgol yn mynd o nerth i nerth gyda chyn ddisgyblion bellach yn rhieni, athrawon, cynorthwywyr a staff gweinyddol.

This year Gwynllyw is celebrating its thirtieth birthday. We are proud to say that the school goes from strength to strength, with many former pupils filling the roles of parents, teachers, assisstants and administrative staff.

# Gair gan y Pennaeth / A Note from the Head

Mae'r tymhorau yn prysur droi a chyn hir bydd Nadolig ar ein gwarthaf. Mae Bl 13 llynedd bellach yn eu prifysgolion neu wedi dechrau ar eu llwybrau gyrfa newydd. Mae dros hanner o Flwyddyn 11 wedi dychwelyd atom ac wedi dechrau ar gyrsiau Lefel A a/neu gyrsiau galwedigaethol. Mae pawb erbyn hyn wedi cyfarwyddo â threfn newydd y dydd ac o'r farn bod amser yn hedfan heibio hyd yn oed yn gynt nag o'r blaen! Mae yna nifer o ddatblygiadau cyffrous yn yr Ysgol. Rydym wedi cyflogi swyddog rygbi a ffitrwydd mewn cydweithrediad ag Undeb Rygbi Cymru ac yn edrych ymlaen at ei gyfraniad ef at iechyd a ffitrwydd yn yr ysgol. Rydym wedi danfon adroddiadau interim ar eu newydd wedd atoch fel rhieni a gobeithiwn bydd y rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi. Mae'r rhain yn mynd law yn llaw gyda'n apiau newydd Taro'r Targed (Class Charts) a Schools Gateway fel eich bod â'r wybodaeth  ddiweddaraf am gyrhaeddiad ac ymddygiad eich plentyn. Mae'r disgyblion hefyd yn weithgar yn ein cyngor Ysgol sydd ar ei newydd wedd. Mae saith pwyllgor yn edrych ar bob agwedd o fywyd Ysgol o waith elusennol, i'r Iaith Gymraeg a'r amgylchedd. Roeddem hefyd wrth ein bodd i glywed ein bod wedi ennill grant i godi Ysgol Gynradd Gymraeg ar ein safle. Gwnaethom groesawu'r Farwnes Eluned Morgan AS dros Y Gymraeg a Dysgu Gydol oes i'r Ysgol i wneud y datganiad. Rydym nawr yn aros yn eiddgar am y camau nesaf yn y broses.  Mae ein disgyblion wedi bod yn hynod o brysur yn yr Ysgol a thu hwnt - felly gobeithio y cewch flas ar yr hyn maent wedi bod yn gwneud yn ein newyddlen ddiweddaraf.

The days are drawing in and Autumn is upon us and before we can blink it will be Christmas! Last Year's Yr 13 are now all at their Universities or embarking on the next stage of their career and well over half of last year's Year 11 have returned to us to start on their A Level and Vocational courses.  Everyone is now accustomed to the new school hours and finding that the school day flies by even faster.
There have been some exciting new developments in school: We have employed a new rugby and fitness officer in tandem with the WRU to work with pupils at all levels. We have just sent our first batch of our new look interim reports to you as Parents which I hope you will find informative. These go hand in hand with our Class Charts App and our School Gateway App in order that you are fully informed about your child's progress and behaviour in school.  Students are also now engaged in our new look school council which has seven committees looking at all aspects of school life from raising money for charity, The Welsh Language to the environment.
We were also thrilled to hear that we had been successful in winning a bid to build a new Primary School on site. We welcomed the Assembly Member for Welsh and Lifelong Learning Baroness Eluned Morgan to make the announcement at school. We will now wait for the next steps in this exciting development.
Our students have been busy in all aspects of school life and beyond – therefore I hope you enjoy finding out what they have been up to in this edition of our Newsletter.

I gofnodi'r deg ar hugain trefnwyd bod yna lun o'r ysgol gyfan yn cael ei dynnu. Roedd yn bwnawn i'w gofio ac yn llun i'w drysori. Gobeithio bod pawb wedi archebu copi i gofio am y flwyddyn arbennig hon.

To celebrate the thirty years of Gwynllyw a school photograph was organised. We hope that everyone will treasure the captured moment.





Mae'n fwriad gan y llywodraeth gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. I wireddu'r freuddwyd daeth Eluned Morgan i'r ysgol i gyhoeddi bod rhan o'r £46 miliwn sydd wedi cael ei glustnodi i greu ysgolion Cymraeg newydd ac ehangu ysgolion sy'n bodoli'n barod yn cael ei roi i Dor-faen i agor ysgol gynradd Gymraeg ar safle Gwynllyw.

It is the government's intention to achieve a million Welsh speakers by the year 2050. To further this aspiration Eluned Morgan visited the school to announce that part of the £46 million, earmarked to create new Welsh schools as well as to enhance the existing schools, is being provided to Torfaen to open a new Welsh Primary School on the Gwynllyw site.

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Hydref 2018

Newyddlen y Hydref // Autmn Newsletter


Mae nifer o ddisgyblion wedi cael llwyddiannau yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Rydym yn ymfalchio yn y bobl ieuanc hynny sy'n barod i gyfrannu yn wirfoddol yn y gymuned.

Cafodd holl waith elusennol James Merchant Bl 11 ei gydnabod mewn noson wobrwyo arbennig yng Nghlwb Golff Greenmeadows gan y Clwb Rotari.

Un arall gafodd ei chydnabod gan yr Heddlu fel Cadet y Flwyddyn yn rhanbarth Caerffili oedd Bethan Williams Bl 10. Derbyniodd dystysgrif i gydnabod ei hymroddiad a'r holl waith gwirfoddol a wnaeth i'r gymuned.

James Merchant Year 11 for his voluntary work received a well deserved mention at a special prize giving evening held at the Greenmeadows Golf Club by the Rotary Club.

Another pupil who received praise from the Police and was Cadet of the Year in the Caerphily region was Bethan Williams, Year 10. She received a certificate as recognition for her dedication and voluntary work in the community.









Mae Maisy Evans wedi bod yn codi arian ar gyfer DKMS sef elusen sy'n cefnogi cancr y gwaed (Myeloma, Leukaemia, Lymphoma). Mae grwp sef Marrow for Marley - mae ei chefnder yn sal iawn ac maent yn chwilio am roddwr iddo er mwyn achub ei fywyd. Fe godwyd £200 wythnos diwethaf trwy werthu cacennau ac roedd 'drive' yn y Neuadd lle'r oedd cyfle i bobl rhoi swab i weld os oeddent yn match.

Mae nifer o gemau wedi cael eu cynnal yn erbyn ysgolion lleol ar y cae chwarae. Mae ambell unigolyn wedi bod yn brysur ar y penwythnosau ac wedi cael llwyddiant rhyfeddol.

Llongyfarchiadau i'r nofiwr chwim Dewi Bl 8 a wnaeth ennill 7 o fedalau yn Abertawe yn ddiweddar. Yna yn y Serpentine yn Llundain ennillodd eto yn y dŵr agored.

Mae golwg flinedig iawn ar nifer o athrawon Gwynllyw oherywdd iddyn nhw redeg yr hanner marathon yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Da iawn wir.

Llongyfarchiadau i Bradley Tyson Bl 11 a fu'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Snooker y Byd dan 16 yn St Petersburg.

Maisy Evans has been raising money for DKMS, a charity supports peole afflicted by blood cancer (Myelma, Leukaemia, Lymphoma). There is a group called Marrow for Marley (Maisy's cousin, who is seriously ill) who are seaching for a donor to save his life. A sale of cakes recently raised £200 a drive was held in the Hall which gave people the chance to give a swab to find whether they were a match.

Many games have been held between our local schools and some individuals have been busy on the weekends and have gained notable successes.

Congratulations to Dewi Rosser Year 8 who won 7 medals at swimming in Swansea recently. Then he won again in the Serpentine in London in the Open Water Competition.

Congratulations to the tired looking teachers who succeeded in completing the half marathon held recently in Cardiff.

Congratulation to Bradley Tyson who competed in the World Snooker Championship Under 16 held in St Petersburg.

## Yr Adran Addysg Grefyddol – Ymweliad GSUS Live Hydref 1af-5ed

Fe wnaeth Bl 7,8 9 a dosbarthiadau TGAU fwynhau ymweliad y bws Amlgyfryngol GSUS yn ystod wythnos gyntaf Hydref. Rhoddwyd y cyfle i ddisgyblion feddwl am ddysgeidiaeth Crist trwy ystyried gwahanol sefyllfaoedd mewn amgylchfyd rhyngweithiol. Bu'n gyfle i'n disgyblion ehangu eu dealltwriaeth o athroniaethau allweddol Cristnogaeth (ofn a maddeuant) mewn ystafell ddosbarth tra wahanol yn llawn o sgriniau difyr. Nododd nifer o'r plant pa mor ddiddorol a pherthnaosl oedd y profiad.

Years 7,8,9 and GCSE classes have enjoyed a visit to the GSUS Live Multimedia bus during the first week of October. This was a chance to help pupils think about real-life issues through the teachings of Jesus in an interactive environment. The visit gave pupils an opportunity to enhance their understanding of key Christian teachings (such as fear, forgiveness and rejection) in a mobile classroom which houses a fully functioning computer suite and presentation screens. Our pupils have commented on how interesting and relevant the characters scenarios were to them. There was a real buzz around the school regarding the lessons with some students asking if they could go back in and give advice to a different interactive character that was available to them.

## Bl.12/13 - Taith SkillsCymru - Motorpoint Caerdydd, Hydref yr 11eg

On Thursday the 11th of October students from Year 12 and 13 were given the opportunity to visit the SkillsCymru event held at Motorpoint Arena. They met with current apprentices, colleges, training providers, Banks, NHS workers and advisors who offer opportunities for young people getting ready for the next step in their futures. A great time was had by all! Congratulations to Iestyn Howells (Year 12) who won an IPad worth £319 after correctly completing a Maths challenge set by one of the companies involved!

Rhoddwyd y cyfle I Fl 12/13 ymweld â Sgiliau Cymru a gynhaliwyd yn y Motorpoint Arena. Cafwyd cyfle i gwrdd â phrentisiaid, colegau, darparwyr hyfforddiant, Banciau, gweithwyr GIG a chynghorwyr a hynny er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol. Roedd y profiad yn un buddiol. Rhaid llongyfarch Iestyn Howells Bl 12 a enillodd IPad gwerth £319 wedi iddo gwblhau her Mathemategol yn gywir gan un o'r cwmniau oedd yno!


# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Hydref 2018

Newyddlen y Hydref // Autmn Newsletter









Fb.me/yggwynllyw
twitter.com/ysgolgwynllyw

Bydd pob dysgwr yn llwyddo

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Hydref 2018

Newyddlen y Hydref // Autmn Newsletter


## Dathlu Diwrnod Ieithoedd Ewropeiadd - European Languages Day

Er mwyn dathlu diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd ar Fedi 26ain cynhaliwyd sawl gweithgaredd ar gyfer disgyblion o fl 11-13. Cafodd bl 7 gwis ieithoedd gyda chyd-weithrediad nifer o athrawon aml-ieithog!
Cynhaliwyd helfa drysor Ieithoedd gan ddefnyddio technoleg mwyaf diweddar 'codau 'QR' ac roedd y gystadleuaeth pobi cacen yn hynod o boblogaidd o fl 7 i 13.
Roedd gan Miss Richards a Miss Hook y dasg hynod anodd o feirniadu 28 o gacenau o safon anhygoel o uchel! Diolch yn fawr iawn i bawb aeth i drafferth i wneud cacenau o bob lliw a llun.
Yr enillwyr oedd Noah Hathaway bl 7
2il Lotti Glyn bl 10
3ydd Edwards bl 7.

On the 26th Sept activities were held for Year 11-13. Year 7 were given a language Quiz with the aid of several multi lingual teachers. A language treasure hunt was held using the latest QR code technology. The cake baking competition was most popular with year 7 – 13.
Miss Richards and Miss Hook were given the unenviable task of adjucating 28 cakes.
1st – Noah Hathaway Year 7
2nd – Lotti Glyn Year 10
3rd – Edwards Year 7







# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Hydref 2018

Newyddlen y Hydref // Autmn Newsletter

Gyda phob blwyddyn mae yna griw newydd o brif swyddogion. Dyma lun ohyn nhw gyda'i gilydd.

Every new year provides new Head Prefects. Here is the team photo!



Maisy Edwards, Ella Wilkins, Aneurin, Lowri Jacob, Seren Williams a Chloe Russell-Williams.

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Hydref 2018

Newyddlen y Hydref // Autmn Newsletter

Llongyfarchiadau i Fl 11 ar gyflawni alldaith eu Gwobr Dug Caeredin ym Mannau Brycheiniog a Chwm Afan. Diolchiadau hefyd i Wasanaeth Gweithgarwch Awyr Agored Urdd Gobaith Cymru.

Congratulations to our Year 11 DofE Bronze group on completing their expeditions in the Brecon Beacons & Afan Valley. Many thanks to the Urdd Outdoor Activity Service for their assistance.






Perfformiodd Charlotte Chappell a Paige Sorby o flaen disgyblion Bl 9 Abersychan i Forum Theatre.

Charlotte Chappell and Paige Sorby performed for the Forum Theatre before Abersychan's Year 9 pupils.





# Y dyfodol agos – In the near future

Noson agored Bl.5 a 6 - cyfle i rieni a disgyblion fynd o amgylch yr ysgol, cwrdd gyda'r adrannau a gweld yr ysgol ar waith.
Nos Fercher, Tachwedd 7fed.
4 - 6 : Blwyddyn 6.
4.30 - 6 : Blwyddyn 5
Sgwrs gyda'r Pennaeth am 6 o'r gloch.

Open Evening for Year 5 and 6 – a chance for parents and pupils to tour the school and visit its departments and see the school at work.
Wednesday Evening, November 7th.
4 - 6 : Year 6.
4.30 - 6 : Year 5
Year 6 with presentation by the Head.

**Ymunwch â'r URDD er mwyn medru cystadlu eleni yn y gwahanol gystadlaethau.**

**Join the URDD in order to be able to compete in this year's various competitions.**

# YSGOL GWYNLLYW

*Dathlu 30 oed*

MAE YSGOL GWYNLLYW'N 30 OED -
NI FU DATHLU FEL HYN ERIOED!

MI DDOWN I'R YSGOL, DOED A DDÊL,
I DDARLLEN, SGWENNU A CHWARAE PÊL.

YN EI MURIAU HI, CYMRAEG YW EIN HIAITH,
A NINNAU DRWYDDI'N MWYNHAU WRTH EIN GWAITH.

CAWN HWYL BOB DYDD WRTH SGWRSIO A DYSGU,
A DOWN AT EIN GILYDD YN LLAWEN I DDATHLU.

MAE YSGOL GWYNLLYW'N 30 OED -
NI FU DATHLU FEL HYN ERIOED!

MANON AWST
#HER100CERDD